

# Cyswllt Pensiynau

## Cyflwyniad

Croeso cynnes i'r rhifyn diweddaraf o gylchlythyr Cyswllt Pensiynau. Dyma ein cylchlythyr ar gyfer aelodau sydd wedi ymdddeol o Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf ar Gwasanaeth Tân. Eleni, bydd y rhan fwyaf o'n haelodau sydd wedi ymdddeol yn gweld cynnydd o 10.1% yn eu pensiwn o fis Ebrill 2023 ymlaen.

Bwriad y cylchlythyr yma yw darparu gwybodaeth a ffeithiau defnyddiol ar eich cyfer chi ynglŷn â'ch pensiwn. Mae cryn dipyn o wybodaeth, felly, cofiwch fod y Garfan Cymorth Pensiynau yn fodlon eich helpu – ffoniwch

### 01443 680611

Cewch chi hefyd ddod o hyd i lawer o wybodaeth ddefnyddiol ar ein gwefan pensiynau. Mae adran benodol ar gyfer ein haelodau sydd wedi ymdddeol. Mae gan y safle ddolennau cyswllt defnyddiol i wefannau perthnasol eraill.



Dyma gyfeiriad ein gwefan:

[www.rctpensions.org.uk](http://www.rctpensions.org.uk)

## Fy Mhensiwn Arlein

Mae modd i chi gofrestru ar gyfer gwasanaeth Fy Mhensiwn Ar-lein os nad ydych chi wedi gwneud hynny'n barod. Dymaglyfleuster ar-lein sy'n caniatáu i chi fwrw golwg ar eich holl gyfloglenni a'ch ffurflen P60 ar-lein neu ddiweddarau eich cyfeiriad neu fanylion cyfrif banc. Mae modd i chi gofrestru ar gyfer y gwasanaeth drwyglicio ar fotwm Fy Mhensiwn Ar-lein ar wefan Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf a dilyn y cyfarwyddiadau.



## Dyddiadau Talu Pensiwn

Tân Cyflogres 96	Llywodraeth Leol Cyflogres 98 (diwedd y mis)	Llywodraeth Leol Cyflogres 99 (canol y mis)
28 Ebrill	28 Ebrill	14 Ebrill
01 Mehefin	31 Mai	16 Mai
30 Mehefin	30 Mehefin	16 Mehefin
01 Awst	31 Gorffennaf	14 Gorffennaf
01 Medi	31 Awst	16 Awst
29 Medi	29 Medi	15 Medi
01 Tachwedd	31 Hydref	16 Hydref
01 Rhagfyr	30 Tachwedd	16 Tachwedd
29 Rhagfyr	29 Rhagfyr	15 Rhagfyr
01 Chwefror	31 Ionawr	16 Ionawr
01 Mawrth	29 Chwefror	16 Chwefror
28 Mawrth	28 Mawrth	15 Mawrth

## Diogelu Data

Daeth y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol i rym ym mis Mai 2018. Mae Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf yn Rheolwr Data. Mae hyn yn golygu ein bod ni'n storio, cadw a rheoli eich data personol yn unol â'r gofynion statudol er mwyn caniatáu i ni weinyddu'ch pensiwn. Ydych chi eisiau rhagor o wybodaeth am y data rydyn ni'n eu cadw a'r hyn rydyn ni'n ei wneud gyda'r data hynny? Edrychwch ar ein Hysbysiad Preifatrwydd: [www.rctpensions.org.uk](http://www.rctpensions.org.uk)

## Eich tystysgrif P60 a'ch cyfloglenni

Bydd eich Tystysgrif P60 yn cael ei chyhoeddi ym mis Mai eleni a bydd hi'n rhoi crynodeb o'r pensiwn y byddwch chi wedi'i dderbyn a'r dreth y byddwch chi wedi'i thalu yn ystod y flwyddyn, hyd at 5 Ebrill 2023. Mae'ch Tystysgrif P60 yn cynnwys gwybodaeth sy'n ofynnol gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, sef Lwfans Oes.

Lwfans Oes yw uchafswm gwerth eich buddion pensiwn cyn tynnu taliadau treth ychwanegol. Y terfyn ar gyfer 2022/2023 oedd £1,073,100. Bydd modd gweld swm eich Lwfans Oes ar eich Tystysgrif P60; mae hyn yn seiliedig ar eich buddion pensiwn Llywodraeth Leol a fydd e ddim yn cynnwys unrhyw bensiynau eraill sy'n cael eu talu.

Noder y bydd cofnod gwag ar Dystysgrifau P60 aelodau sydd wedi ymdddeol cyn 6 Ebrill 2006, gan nad yw Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn gofyn am hyn.

Mae'n bwysig eich bod chi'n cadw'ch Tystysgrif P60 yn ddiogel; mae'n bosibl y bydd eisiau i chi gyfeirio ati yn y dyfodol.

Byddwch chi'n derbyn cyfloglen bapur drwy'r post os oes newid gwerth mwy na £1 yn eich pensiwn net o'i gymharu â'r mis blaenorol neu os yw eich cod treth yn newid, felly byddwch chi fel arfer ond yn derbyn cyfloglen ym mis Mawrth, mis Ebrill a mis Mai bob blwyddyn.

## Cysylltwch!



**Desg Gymorth Pensiynau:** 01443 680611  
Llun - Gwener: 9am - 5pm



**E-bost:** [Pensiynau@rctcbc.gov.uk](mailto:Pensiynau@rctcbc.gov.uk)



**Gwefan:** [www.rctpensions.org.uk](http://www.rctpensions.org.uk)



**Post:** Tŷ Oldway, Porth CF39 9ST

## Newidiadau yn eich manylion personol

Cofiwch roi gwybod i ni os byddwch chi'n symud tŷ neu'n newid eich manylion banc.

Mae dwy ffordd o roi gwybod i ni:

- Defnyddio Fy Mhensiwn Ar-lein, neu
- Os ydych chi eisoes wedi cofrestru cyfrinair gyda ni, mae croeso i chi ddweud wrthon ni am y newidiadau yma ar y ffôn, neu
- Mae croeso i chi lawrlwytho'r **Ffurflen Newid Cyfeiriad neu Fanylion Banc** o'n gwefan: [www.rctpensions.org.uk](http://www.rctpensions.org.uk) Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dweud wrthon ni mewn da bryd - os na wnewch chi hyn, mae'n bosibl bydd eich taliad yn hwyr.

Os ydych chi'n dweud wrthon ni eich bod chi wedi symud, byddwn ni'n rhoi'ch cyfeiriad newydd i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Os yw'ch statws priodasol wedi newid, bydd raid i chi roi gwybod i ni a darparu copi o'ch tystysgrif priodas wreiddiol, eich tystysgrif partneriaeth sifil neu'ch archddyfarniad absoliwt.



**RHONDDA CYNON TAF**

## Cynnydd mewn pensiwn eleni

Mae cynnydd blynyddol yn eich Pensiwn Llywodraeth Leol ar Wladwriaeth yn seiliedig ar FyNEGAI Prisiau Defnyddwyr (CPI), fel yr oedd ar 30 Medi y flwyddyn flaenorol. Bydd y cynnydd yn cael ei dalu o 10 Ebrill 2023.

Bydd eich pensiwn yn cynyddu:

- os ydych chi'n 55 oed neu'n hŷn
- neu os ydych chi'n derbyn pensiwn eich priod, buddiolwr, neu blentyn
- neu os ydych chi wedi ymdeol oherwydd salwch

Os nad yw un o'r rhain yn berthnasol i chi, bydd eich pensiwn yn cynyddu, ond fydd y cynnydd ddim yn cael ei dalu tan eich pen-blwydd yn 55 oed.

### Eleni, bydd cynnydd o 10.1% yn eich pensiwn.

Os dechreuodd eich pensiwn ar ôl 25 Ebrill 2022, byddwch chi'n derbyn cyfran o'r buddion, sy'n dibynnu ar ddyddiad eich ymdeoliad.

Os ydych chi'n derbyn pensiwn, a'ch bod chi wedi cyrraedd Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, fe ganiateir i'r Gronfa Bensiwn beidio â thalwr cynnydd llawn; bydd rhan ohono'n cael ei dalu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar ffurf cynnydd yn eich Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth. Bydd hyn yn gyfartal â'r cynnydd cyfan.

Pensiynau yn dechrau	Cynnydd yn y pensiwn
27 Mawrth 2022 hyd at 25 Ebrill 2022	10.1%
26 Ebrill 2022 hyd at 25 Mai 2022	9.26%
26 Mai 2022 hyd at 25 Mehefin 2022	8.42%
26 Mehefin 2022 hyd at 25 Gorffennaf 2022	7.58%
26 Gorffennaf 2022 hyd at 25 Awst 2022	6.73%
26 Awst 2022 hyd at 25 Medi 2022	5.89%
26 Medi 2022 hyd at 25 Hydref 2022	5.05%
26 Hydref 2022 hyd at 25 Tachwedd 2022	4.21%
26 Tachwedd 2022 hyd at 25 Rhagfyr 2022	3.37%
26 Rhagfyr 2022 hyd at 25 Ionawr 2023	2.53%
26 Ionawr 2023 hyd at 25 Chwefror 2023	1.68%
26 Chwefror 2023 hyd at 25 Mawrth 2023	0.84%

## Dewis iaith

Rydyn ni'n hapus i gyfathrebu â chi yn Gymraeg neu yn Saesneg. Rhwch wybod i ni beth yw'ch dewis iaith a byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n cyfathrebu â chi yn yr iaith honno yn y dyfodol. Fydd gohebu yn Gymraeg ddim yn arwain at oedi.

## Diogelu'ch arian

Mae'r Gronfa Bensiwn yn rhan o'r Fenter Atal Twyll Genedlaethol sy'n canolbwyntio ar atal achosion o dwyll a llwgrwobrwyo sy'n costio cannoedd o filiynau o bunnoedd i drethdalwyr bob blwyddyn.

Drwy gymryd rhan yn y fenter yma, mae Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf yn cyfrannu at ddod o hyd i achosion o dwyll a llwgrwobrwyo, ac mae dyletswydd gyfreithiol arnon ni i ddiogelu arian cyhoeddus. Yn rhan o'r fenter yma, mae asiantaethau cyhoeddus yn cael rhannu'r wybodaeth yma.

Os byddwch chi'n derbyn cais am wybodaeth, peidiwch â phoeni – hwyrach bod eisiau egluro anghysonderau sydd wedi dod i'r amlwg.

Os ydych chi'n hawlio unrhyw fudd-daliadau, er enghraifft budd-dal tai, mae eisiau i chi roi gwybod am eich taliadau pensiwn, gan gynnwys pensiynau salwch, gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Bydd y newid yn cael ei ystyried yn awtomatig mewn buddion goroeswyr sy'n cael eu talu i bartner sifil a phriod o'r un rhyw yn y dyfodol.

## Pensiynwyr Tramor

Yn dilyn adolygiad o'n gweithdrefnau bancio mae Cronfa Bensiwn RhCT yn gweithio gyda Convera (Western Union Business Solutions gynt, sy'n rhan o Western Union Group.)

Mae Convera yn arweinydd ym maes gwasanaethau talu byd-eang ac yn cynnig buddion sylweddol wrth inni weinyddu'ch taliadau tramor. Bydd y bartneriaeth yma'n eich galluogi chi i dderbyn eich taliadau pensiwn yn eich arian lleol, yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc tramor, ble bynnag yn y byd rydych chi'n byw. Fydd dim tâl trafodion misol am hyn.

Hoffech chi gofrestru ar gyfer y gwasanaeth yma? Cysylltwch â ni a byddwn ni'n anfon ffurflen atoch. Roedd Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf wedi cydweithio â Crown Agents Bank ar ddiwedd 2022 er mwyn galluogi ein pensiynwyr tramor i gwblhau 'prawf o fywyd' digidol. Yn dilyn llwyddiant y prosiect yma, mae'r Gronfa wedi penderfynu bydd hyn yn cael ei gynnal yn flynyddol o hyn ymlaen.

## Pensiwn y Wladwriaeth a Threthi – Ymholiadau

Mae modd i'r Gwasanaeth Pensiwn, sy'n rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau, roi gwybodaeth i chi ynglŷn â'ch Pensiwn y Wladwriaeth a'ch credydau pensiwn, ynghyd â rhoi cyngor ar daliadau tanwydd gaeaf a budd-daliadau perthnasol eraill.

### Pensiwn y Wladwriaeth –

#### Hawlio am y tro cyntaf:

0800 731 7898

#### Gwasanaeth yn Gymraeg:

0800 731 7936

### Pensiwn y Wladwriaeth – Ymholiadau:

0800 731 0469

#### Gwasanaeth yn Gymraeg:

0800 731 0453

Yn ogystal â hynny, mae modd gwneud cais am Bensiwn y Wladwriaeth ar-lein:

[www.gov.uk/cael-eich-pensiwn-y-wladwriaeth](http://www.gov.uk/cael-eich-pensiwn-y-wladwriaeth)

Os bydd unrhyw gwestiynau gyda chi ynglŷn â'ch treth, cysylltwch â'r Swyddfa Dreth, gan ddyfynnu eich Rhif Yswiriant Gwladol.

### Pay As You Earn and

#### Self Assessment

#### HM Revenue and Customs

BX9 1AS

Ffôn: 0300 200 3310

#### Gwasanaeth yn Gymraeg:

0300 200 1900

[www.hmrc.gov.uk](http://www.hmrc.gov.uk)

## Dyfarniad McCloud

Pan ddiwygiodd y Llywodraeth gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yn 2014 a 2015 fe wnaeth gyflwyno mesurau diogelu ar gyfer aelodau hŷn. Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod aelodau iau o gynlluniau Pensiwn y Barnwyr a'r Diffoddwyr Tân wedi cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn oherwydd dydy'r mesurau diogelu ddim yn berthnasol iddyn nhw. Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau y bydd newidiadau i holl brif gynlluniau'r sector cyhoeddus, gan gynnwys y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) a Chynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân, i gael gwared ar y gwahaniaethu yma ar sail oedran. Yn aml, gelwir y dyfarniad yma'n 'ddyfarniad McCloud' ar ôl aelod o Gynllun Pensiwn y Barnwyr a oedd yn ymwneud â'r achos.

Dydy'r Llywodraeth ddim wedi cadarnhau manylion terfynol y newidiadau eto. Unwaith y byddwn yn gwybod beth yw'r newidiadau, byddwn ni'n gwirio pensiynau'r holl aelodau sydd wedi'u heffeithio gan hyn i weld a oes angen cynyddu eu buddion pensiwn. Er mwyn i'r dyfarniad effeithio arnoch chi, rhaid i chi fod wedi bod yn aelod gweithredol o'ch cynllun pensiwn ar neu cyn 31 Mawrth 2012 a gadael y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) ar ôl 1 Ebrill 2014, neu adael y Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân ar ôl 1 Ebrill 2015.

**Does dim angen i chi wneud unrhyw beth, byddwn ni'n cysylltu â chi os yw'r newidiadau yn effeithio arnoch chi.**